Adroddiad ymateb i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd

Cyngor Sir Caerfyrddin

# CYFNEWIDFA DEITHIO LLANELLI

# Hysbysiad

Mae'r ddogfen hon, a'i chynnwys, wedi'u paratoi fel gwybodaeth i'w defnyddio at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Cyfnewidfa Deithio Llanelli yn unig.

Nid yw AtkinsRéalis yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw barti arall mewn perthynas â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys, neu'r wybodaeth sy'n deillio ohoni neu sy'n gysylltiedig â hi.

Mae gan y ddogfen hon 47 dudalen, gan gynnwys y clawr.

## Hanes y ddogfen

**Teitl y ddogfen: Adroddiad ymateb i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd**

**Cyfeirnod y ddogfen:** CA20-ATK-HGN-SWMWRCES-RP-CH-000003

| Adolygiad | Disgrifiad o'r diben | Cychwynnnwyd | Gwiriwyd | Adolygwyd | Awdurdodwyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| P02.1 | | EM | SW | CD | CD | 13 Awst 25 |
| P01 | RHIFYN CYNTAF | EM | SW | CD | --- | 1 Awst 25 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

## Llofnod y cleient

| | |
|---|---|
| **Cleient** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Prosiect** | CYFNEWIDFA DEITHIO LLANELLI |
| **Rhif swydd yr ymgynghorydd** | 5224726 |
| **Llofnod y cleient / dyddiad** | |

# Cynnwys


Cynnwys .... 3

Crynodeb gweithredol .... 6

1. Cyflwyniad .... 7

2. Cynigion y cynllun .... 8

3. Dull ymgynghori .... 9

3.1 Ymgysylltu â'r cyhoedd .... 9

3.2 Dulliau hysbysebu eraill a ddefnyddiwyd .... 9

3.2.1 Gwefan .... 9

3.2.2 Cyfryngau cymdeithasol .... 9

4. Holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd .... 10

4.1 Dadansoddiad o'r cwestiynau .... 10

4.1.1 Cwestiwn 1 – Beth yw pum nod cyntaf eich cod post? (e.e. SA14 9) .... 10

4.1.2 Cwestiwn 2 – Beth yw eich grŵp oedran? .... 11

4.1.3 Cwestiwn 3 – Beth yw eich rhywedd? .... 11

4.1.4 Cwestiwn 4 – A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl? .... 11

4.1.5 Cwestiwn 5 – Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich diddordeb yn y cynllun hwn orau? .... 12

4.1.6 Cwestiwn 6 – Beth yw eich prif ddull teithio o fewn Llanelli? .... 12

4.1.7 Cwestiwn 7 – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? .... 12

4.1.8 Cwestiwn 8 – Beth yw'r heriau mwyaf yr ydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? .... 13

4.1.9 Cwestiwn 9 – A ydych chi'n credu y bydd y cynigion a ddangosir heddiw o fudd i Lanelli? .... 13

4.1.10 Cwestiwn 10 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag amcanion y cynllun? .... 14

4.1.11 Cwestiwn 11 – A fyddai cael pob dull trafnidiaeth ar gael mewn un gyfnewidfa yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach? .... 14

4.1.12 Cwestiwn 12 – A oes unrhyw gyfleusterau penodol wedi'u cynnig yn safle'r gyfnewidfa newydd a fyddai'n ei wneud yn fwy tebygol y byddech chi'n ei ddefnyddio? .... 15

4.1.13 A hoffech chi roi unrhyw sylwadau pellach ynghylch y cynigion neu'r digwyddiad ymgysylltu? .... 16

5. Crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd .... 27

5.1 Ardal .... 27

5.2 Barn am y cynllun .... 28

5.2.1 Ymatebwyr sy'n byw'n lleol (SA15 1 ac SA15 2) .... 29

5.2.2 Ymatebwyr nad ydynt yn byw'n lleol (y tu allan i SA15 1 ac SA15 2) .... 29

5.2.3 Dosbarthiad oedran .... 30

5.2.4 Dosbarthiad rhywedd .... 30

5.2.5 Prif ddull teithio .... 31

5.2.6 Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus .... 32

5.2.7 Diddordeb yn y cynllun .... 32

5.3 Heriau o ran trafnidiaeth gyhoeddus .... 33

5.4 O fudd i Lanelli .... 34

5.5 Annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus .... 34

5.6 Y cyfleusterau arfaethedig a ffefrir ... 35

**6. Argymhellion ... 36**

6.1 Awgrymu camau gweithredu a chamau nesaf ... 36


## Tablau


Tabl 4.1 – Nifer yr holiaduron ymgysylltu â'r cyhoedd a gafodd eu dychwelyd ... 10

Tabl 4.2 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 2 ... 11

Tabl 4.3 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 3 ... 11

Tabl 4.4 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 4 ... 11

Tabl 4.5 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 5 ... 12

Tabl 4.6 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 6 ... 12

Tabl 4.7 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 7 ... 12

Tabl 4.8 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 8 ... 13

Tabl 4.9 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 9 ... 13

Tabl 4.10 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 10 ... 14

Tabl 4.11 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 11 ... 14

Tabl 4.12 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 12 ... 15

Tabl 4.13 – Cwestiynau cyffredin Cwestiwn 13 ... 16

Tabl 5.1 – ardal leol yr ymatebwyr ... 28


## Ffigurau


Ffigur 1 – Ardal Cynllun Cyfnewidfa Aml-Fodd Llanelli ... 7

Ffigur 2 – Ardal lle dosbarthwyd llythyrau ynghylch cyfnewidfa Llanelli ... 9

Ffigur 3 – Ymateb cyffredinol i'r ymarfer ymgysylltu ... 28

Ffigur 4 – Barn ymatebwyr lleol am y cynllun ... 29

Ffigur 5 – Barn ymatebwyr nad ydynt yn lleol am y cynllun ... 29

Ffigur 6 – Oedran a barn am y cynllun ... 30

Ffigur 7 – Barn am y cynllun yn ôl rhywedd ... 31

Ffigur 8 – Prif ddull teithio a barn am y cynllun 31
Ffigur 9 – Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a barn am y cynllun 32
Ffigur 10 – Diddordeb yn y cynllun a'r barn amdano 33
Ffigur 11 – Yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus 33
Ffigur 12 – Buddion cynigion y cynllun i Lanelli 34
Ffigur 13 – Effaith cynigion y cynllun ar annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus 34
Ffigur 14 – Y cyfleusterau arfaethedig a ffefrir 35

# Crynodeb gweithredol

Ym mhedwerydd chwarter 2024, ymgymerodd AtkinsRéalis â'r gwaith o greu'r dyluniad rhagarweiniol ar gyfer cyfnewidfa deithio ger Gorsaf Reilffordd Llanelli ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin, gyda'r nod o wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cydgysylltiedig yn Llanelli a thu hwnt.

Er mwyn datblygu'r dyluniad hwn ymhellach, penderfynwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chasglu sylwadau / barn y cyhoedd am y cynllun. Felly, comisiynodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cwmni AtkinsRéalis i gydlynu a chynnal ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer y dyluniad rhagarweiniol arfaethedig. Wedi hynny, trefnodd AtkinsRéalis ddau ddigwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ym mis Mawrth 2025, anfonwyd llythyrau at drigolion sy'n byw yn agos i faes y cynllun, gan roi gwybod iddynt am y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd i'w cynnal yn Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli a Chanolfan Antioch, Heol Copperworks, Llanelli. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr ymgysylltu, gan gynnwys dolen i wefan Cyfnewidfa Deithio Llanelli, a'r holiadur ymgysylltu. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth drwy lythyrau, hysbysebwyd manylion y digwyddiadau ymgysylltu ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin.


Cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu cyntaf yn Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli ar 17 Mawrth 2025 a chafwyd 11 o bobl yn galw i mewn. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ymgysylltu yng Nghanolfan Antioch ar 27 Mawrth 2025, lle cafwyd 72 o bobl yn galw i mewn. Ar draws y ddwy sesiwn, roedd yr adborth a gafwyd ar y cynllun arfaethedig yn gadarnhaol dros ben. Gwnaeth y rheini a ddaeth i'r digwyddiadau ymgysylltu fynegi eu cefnogaeth i'r syniadau a gyflwynwyd, ac mae eu cyfraniadau wedi bod yn werthfawr ar gyfer dilysu trywydd y cynigion. Mae'r ymateb calonogol hwn wedi cryfhau'r achos dros fwrw ymlaen â'r opsiynau a amlinellwyd yn ystod y broses ymgysylltu.

Ar sail yr adborth cadarnhaol a grynhoir yn yr adroddiad hwn, argymhellir y gellid trosglwyddo'r dyluniad rhagarweiniol i'r cam cynllunio a dylunio manwl, gan sicrhau bod y cynigion yn ystyried ac yn mynd i'r afael, lle bo'n briodol, â'r sylwadau a wnaed gan y gymuned gyfagos.

# 1. Cyflwyniad

Yn 2024, comisiynwyd AtkinsRéalis gan Gyngor Sir Caerfyrddin i greu dyluniadau a chynnal asesiadau rhagarweiniol i archwilio opsiynau ar gyfer cyfnewidfa deithio yng nghanol Llanelli, gyda'r nod o wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cydgysylltiedig yn y dref a thu hwnt.

Gellir gweld ardal arfaethedig y gyfnewidfa a'r gwaith gwella cyfagos yn Ffigur 1 isod.




**Ffigur 1 – Ardal Cynllun Cyfnewidfa Deithio Llanelli**

Ar ôl datblygu'r dyluniad rhagarweiniol, argymhellwyd y dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyhoedd. Cynhaliwyd yr ymarfer ymgysylltu hwn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, pryderon a dyheadau rhanddeiliaid lleol yn cael eu casglu, yn ogystal â chael barn y cyhoedd am yr opsiynau a gyflwynwyd er mwyn llywio camau datblygu'r dyluniad yn y dyfodol yn well.

Gellir gweld y dyluniad rhagarweiniol a gafodd ei ddatblygu a'i gyflwyno i ymgynghori â'r cyhoedd arno yn y digwyddiad ymgysylltu yn Atodiad A.

# 2. Cynigion y cynllun

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin a'i bartneriaid rhanbarthol yn buddsoddi'n helaeth yn Llanelli fel rhan o'r ymrwymiad i ddatblygu'r dref fel lle iach, bywiog a deniadol i fyw a gweithio ynddi. Bwriedir gwneud hyn drwy ailddefnyddio adeiladau gwag a chreu cartrefi a chyfleoedd cyflogaeth newydd y mae mawr eu hangen. O ystyried hyn, mae'n rhaid mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth presennol y dref, a phroblemau'r dyfodol, mewn ffordd gynaliadwy.

Mae cyfle arwyddocaol ar gyfer twf yng Ngorsaf Reilffordd Llanelli, gydag astudiaethau blaenorol yn nodi bod angen i'r orsaf allu darparu ar gyfer nifer uwch o deithwyr yn y dyfodol, a bod angen gwneud yr orsaf yn fwy atyniadol. Byddai'r cynigion yng Ngorsaf Reilffordd Llanelli yn gwella cysylltedd, gan gefnogi twf economaidd a mynediad i'r dref. Trwy symleiddio cysylltiadau rhwng rheilffyrdd, bysiau a llwybrau teithio llesol, byddai'n annog opsiynau teithio mwy cynaliadwy ac yn lleihau tagfeydd. Byddai cyfleusterau gwell o fudd i gymudwyr, ymwelwyr a busnesau lleol, gan wneud Llanelli yn ganolfan fwy atyniadol a haws ei chyrraedd. Byddai cyfleusterau gwell hefyd yn cryfhau cysylltiadau â chyrchfannau hollbwysig, megis Abertawe, Caerdydd a gorllewin y wlad. Gallai'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith chwarae rhan hanfodol wrth adfywio'r dref a chefnogi datblygiad hirdymor y gymuned.

Mae'r cynllun arfaethedig a gyflwynwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys y gwaith canlynol (yn amodol ar basio trwy'r camau cynllunio a dylunio manwl):


- Datblygu cyfnewidfa deithio, gan ddarparu mynediad i amrywiaeth o ddulliau teithio hygyrch (rheilffordd, bws, tacsi, teithio llesol), yn unol ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol, a gwella'r defnydd ohonynt.
- Bydd y safle'n cynnwys llwybrau ar wahân ar gyfer bysiau a cheir trwy ddefnyddio system unffordd (a chyfleusterau cysgodfan fysiau pwrpasol), gan ddarparu cyfleusterau ar gyfer parcio ceir mewn lleoedd parcio cyfagos hefyd.
- Darparu mannau parcio y tu mewn i safle'r gyfnewidfa arfaethedig, ac uwchraddio'r ddarpariaeth ym maes parcio presennol swyddfa'r post. Mae'r cynigion cyfredol yn cynnwys cyfanswm o 65 o leoedd parcio, gan gynnwys 53 o leoedd parcio arferol, chwe lle parcio i bobl anabl, a chwe lle parcio lle gellir gwefru cerbydau trydan.
- Mynedfa i'r safle (ar gyfer yr holl draffig cerbydol) o Heol Copperworks, ac allanfa ar wahân tuag at Heol yr Orsaf.
- Cyfleusterau cerdded, beicio ac olwyno hygyrch o Heol yr Orsaf, Heol Copperworks, a Theras Great Western, yn ogystal â chysylltiadau rhwng maes parcio swyddfa'r post a'r gyfnewidfa.
- Seilwaith teithio llesol, gan gynnwys 20 o fannau parcio arfaethedig ar gyfer beiciau.
- Cymysgedd o groesfannau wedi'u huwchraddio a chroesfannau ychwanegol heb eu rheoli / a reolir ledled y safle, yn ogystal â dau lwyfan croesi (croesfannau ychwanegol pellach heb eu rheoli / a reolir posibl yn dibynnu ar y galw / angen, a chan ystyried canlyniadau'r arolwg o draffig cerddwyr).
- Tirlunio / ardaloedd â llystyfiant arfaethedig.
- Darpariaeth teithio llesol well ledled y safle, gan gynnwys llwybr troed 3.5 metr o hyd ar hyd Heol Copperworks a Heol yr Orsaf, llwybr troed 2.5 metr o hyd yn arwain at yr orsaf drenau trwy'r ardal sydd eisoes yn bodoli i gefn yr orsaf, a lledu'r llwybrau troed sydd eisoes yn bodoli gerllaw swyddfa'r post a Heol Copperworks.
- Marciau blwch melyn 'cadw'n glir' ychwanegol ar Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd er mwyn sicrhau bod y bysiau sy'n cyrraedd ac yn ymadael â'r gyfnewidfa yn symud heb oedi, ac y gellir dibynnu arnynt.

# 3. Dull ymgynghori

## 3.1 Ymgysylltu â'r cyhoedd

Ar ôl datblygu'r cynllun dylunio rhagarweiniol, datblygodd AtkinsRéalis gyfres o luniadau (Atodiad A) a delweddau ategol ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Arddangoswyd y deunydd ymgysylltu mewn dau leoliad, y cyntaf yn Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli ar 17 Mawrth 2025, rhwng 10am a 7pm, a'r ail yng Nghanolfan Antioch, Heol Copperworks, Llanelli ar 27 Mawrth 2025, rhwng 10am a 7pm.

Dosbarthwyd llythyrau yn rhoi gwybodaeth am y digwyddiadau ymgysylltu i'r eiddo preswyl a masnachol o fewn yr ardal isod (gweler Ffigur 2).




**Ffigur 2 – Ardal lle dosbarthwyd llythyrau ynghylch cyfnewidfa Llanelli**

## 3.2 Dulliau hysbysebu eraill a ddefnyddiwyd

### 3.2.1 Gwefan

Datblygodd a chyhoeddodd AtkinsRéalis wefan hefyd a oedd yn darparu manylion ynghylch cefndir y cynllun a gwybodaeth ymgysylltu berthnasol, gan gynnwys yr holiadur a'r lluniadau a arddangoswyd yn y digwyddiadau ymgysylltu. Gweler y wefan yma https://www.llanelli-interchange.co.uk/cartref.

### 3.2.2 Cyfryngau cymdeithasol

Hysbysebodd Cyngor Sir Caerfyrddin y deunydd ymgysylltu a geir ar y wefan drwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach yng nghyffiniau'r ardaloedd lle dosbarthwyd y llythyrau.

# 4. Holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd

Darparwyd holiadur i gael barn y cyhoedd am y cynllun ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Darparwyd yr holiadur fel copi caled (ar ddiwrnod y digwyddiadau), ac roedd fersiwn ar-lein hefyd. Darparwyd y fersiwn ar-lein ar wefan Cyfnewidfa Llanelli (www.llanelli-interchange.co.uk/cartref) ac roedd modd ei chyrchu drwy god QR hefyd a oedd wedi'i gynnwys mewn llythyr a ddosbarthwyd cyn y digwyddiad ymgysylltu cyntaf. Casglwyd y copïau caled ar ddiwrnod y digwyddiad ymgysylltu yn ogystal â thrwy e-bost a thrwy'r post hyd at 18 Ebrill 2025, gan gynnwys y dyddiad hwnnw.

Darparwyd yr holiaduron yn ddwyieithog. Daeth 98 o ymatebion i law; 96 yn Saesneg, a dau yn y Gymraeg. At ddibenion y dadansoddiad, cyfieithwyd yr ymatebion Cymraeg i'r Saesneg. Gellir gweld pob ymateb yn Atodiad D.

Daeth 11 o unigolion i'r digwyddiad ymgysylltu cyntaf, a daeth 72 o unigolion i'r ail ddigwyddiad ymgysylltu.

## 4.1 Dadansoddiad o'r cwestiynau

Mae pob holiadur a ddaeth i law hyd at ddydd Mercher 18 Ebrill 2025, a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, wedi cael eu dadansoddi. Isod, ceir crynodeb o'r holl wybodaeth a ddaeth i law. Dylid nodi bod y copïau caled a ddaeth i law wedi'u mewnbynnu i'r system ar-lein gan aelod o staff, ac felly, mae'r canlyniadau a ddadansoddwyd isod yn adlewyrchu'r cofnodion ar-lein a'r cofnodion copi caled.

**Tabl 4.1 – Nifer yr holiaduron ymgysylltu â'r cyhoedd a gafodd eu dychwelyd**

| Nifer a gafodd eu dychwelyd | Ar-lein | Copi caled |
|---|---|---|
| Nifer | 59 | 39 |
| Canran | 60% | 40% |

Mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr holiadur, gydag ymatebion wedi'u rhoi ar gyfer pob cwestiwn.

### 4.1.1 Cwestiwn 1 – Beth yw pum nod cyntaf eich cod post? (e.e. SA14 9)

Cafwyd 77 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sy'n golygu nad oedd 18 o bobl wedi ymateb.

### 4.1.2 Cwestiwn 2 – Beth yw eich grŵp oedran?

Cafwyd 98 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda phedwar o'r rhain yn dewis 'Mae'n well gennyf beidio â dweud'.

**Tabl 4.2 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 2**

| Categori oedran | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| O dan 16 | 0 | 0% |
| 16–24 | 3 | 3% |
| 25–34 | 8 | 8% |
| 35–44 | 14 | 14% |
| 45–54 | 11 | 11% |
| 55–64 | 23 | 23% |
| 65–74 | 21 | 21% |
| 75–84 | 14 | 14% |
| 85+ | 0 | 0% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 4 | 4% |

### 4.1.3 Cwestiwn 3 – Beth yw eich rhywedd?

Cafwyd 95 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda thri o'r rhain yn dewis 'Mae'n well gennyf beidio â dweud'.

**Tabl 4.3 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 3**

| Rhywedd | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Benyw | 34 | 35% |
| Gwryw | 61 | 62% |
| Arall | 0 | 0% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 3 | 3% |

### 4.1.4 Cwestiwn 4 – A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Cafwyd 96 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda saith o'r rhain yn dewis 'Mae'n well gennyf beidio â dweud'.

**Tabl 4.4 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 4**

| Anabl | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 72 | 73% |
| Ydw | 17 | 17% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 7 | 7% |

### 4.1.5 Cwestiwn 5 – Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich diddordeb yn y cynllun hwn orau?

Cafwyd 97 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.5 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 5**

| Diddordeb | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Mae fy nghartref neu fusnes yn Llanelli | 75 | 77% |
| Rwy'n ymweld â Llanelli neu'n mynd trwyddi'n rheolaidd | 18 | 19% |
| Arall | 4 | 4% |

### 4.1.6 Cwestiwn 6 – Beth yw eich prif ddull teithio o fewn Llanelli?

Cafwyd 97 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.6 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 6**

| Prif ddull teithio | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Car | 73 | 75% |
| Bws | 6 | 6% |
| Trên | 6 | 6% |
| Cerdded | 9 | 9% |
| Beic | 2 | 2% |
| Sgwter / ysglefrio | 1 | 1% |

### 4.1.7 Cwestiwn 7 – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?

Cafwyd 97 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.7 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 7**

| Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Bob dydd | 4 | 4% |
| Bob wythnos | 16 | 16.5% |
| O bryd i'w gilydd | 61 | 63% |
| Byth | 16 | 16.5% |

### 4.1.8 Cwestiwn 8 – Beth yw'r heriau mwyaf yr ydych chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?

Cafwyd 92 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a chafwyd sawl dewis i bob ymateb. Mae'r canrannau'n adlewyrchu nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn o'r cyfanswm o 92 o ymatebion.

**Tabl 4.8 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 8**

| Heriau o ran trafnidiaeth gyhoeddus | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Nid yw'r opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn ddigon cyson | 38 | 42% |
| Diffyg cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus | 35 | 38% |
| Diffyg cysylltedd rhwng cyfleusterau teithio llesol a'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | 20 | 22% |
| Dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus | 28 | 30% |
| Diogelwch wrth deithio rhwng y cartref / gwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus | 8 | 9% |
| Glendid / cyflwr y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael | 7 | 8% |

### 4.1.9 Cwestiwn 9 – A ydych chi'n credu y bydd y cynigion a ddangosir heddiw o fudd i Lanelli?

Cafwyd 95 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.9 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 9**

| O fudd i Lanelli | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 84 | 88% |
| Nac ydw | 11 | 12% |

## 4.1.10 Cwestiwn 10 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag amcanion y cynllun?

Cafwyd 96 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.10 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 10**

| Cytuno neu anghytuno | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 48 | 50% |
| Cytuno | 33 | 34% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 9% |
| Anghytuno | 4 | 4% |
| Anghytuno'n gryf | 2 | 2% |

## 4.1.11 Cwestiwn 11 – A fyddai cael pob dull trafnidiaeth ar gael mewn un gyfnewidfa yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach?

Cafwyd 93 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 4.11 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 11**

| Annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 77 | 83% |
| Nac ydw | 16 | 17% |

### 4.1.12 Cwestiwn 12 – A oes unrhyw gyfleusterau penodol wedi'u cynnig yn safle'r gyfnewidfa newydd a fyddai'n ei wneud yn fwy tebygol y byddech chi'n ei ddefnyddio?

Cafwyd 96 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a chafwyd sawl dewis i bob ymateb. Mae'r canrannau'n adlewyrchu nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn o'r cyfanswm o 96 o ymatebion.

**Tabl 4.12 – Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: cwestiwn 12**

| Y cyfleusterau arfaethedig a ffefrir | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cyfleuster bws pwrpasol | 32 | 33% |
| Cyfleusterau teithio llesol i'r gyfnewidfa ac oddi yno | 30 | 31% |
| Mannau parcio cerbydau | 38 | 40% |
| Mannau gorffwys | 9 | 9% |
| Rhesel / storfa feiciau | 10 | 10% |
| Gorsafoedd gwefru cerbydau trydan | 4 | 4% |
| Ddim yn berthnasol | 14 | 15% |

### 4.1.13 A hoffech chi roi unrhyw sylwadau pellach ynghylch y cynigion neu'r digwyddiad ymgysylltu?

O'r 98 a ymatebodd, rhoddodd 59 sylwadau ychwanegol. Ar ôl adolygu'r sylwadau ychwanegol hyn, daeth yn amlwg bod sawl cyfranogwr wedi codi pwyntiau neu bryderon tebyg. Er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad yn eglur ac yn gydlynus, mae'r themâu hyn, a godwyd droeon, wedi'u casglu a'u grwpio o dan 30 o benawdau pwnc cyffredin.

Mae Tabl 4.13 isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion / sylwadau yng nghwestiwn 13 yr holiadur.

Mae hefyd yn werth nodi bod un ymatebydd wedi darparu gwybodaeth yn nodi bod Pwyllgor Cynllunio a Chyswllt Cyngor Sir Caerfyrddin wedi trafod cynigion y cynllun yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun, 31 Mawrth 2025. Nodwyd hefyd, yn ystod y cyfarfod hwn, bod y pwyllgor wedi penderfynu mynegi ei gefnogaeth i'r cynllun, gan gydnabod ei botensial i gyfrannu'n gadarnhaol at fuddiannau economaidd ardal Llanelli yn gyffredinol. Ar ben hynny, cydnabuwyd bod y cynigion yn allweddol i ategu'r broses o adfywio'r orsaf reilffordd a'r ardal sy'n ei hamgylchynu sy'n mynd rhagddi.

**Tabl 4.13 – Cwestiynau cyffredin Cwestiwn 13**

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 1 | Pryder na fydd y cyfleusterau bysiau yn y gyfnewidfa'n cael eu defnyddio digon, gan mai dim ond un bws sy'n gwasanaethu Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd ar hyn o bryd. | Er nad oes llawer o fysiau yn yr ardal (un gwasanaeth bws yn unig ar y llwybr ar unrhyw adeg), rhagwelir y bydd cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau ychwanegol ar ôl rhoi'r cynllun ar waith yn caniatáu i wasanaethau trafnidiaeth gael eu datblygu ymhellach, ac yn cynyddu'r defnydd o'r cyfleuster. Ar ben hynny, o ystyried y datblygiadau ychwanegol i'r de o Lanelli, gan gynnwys Pentre Awel, rhagwelir y bydd y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o wella. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 2 | Pryder y bydd y cynigion, yn enwedig y blwch melyn â chroeslinellau a'r croesfannau arfaethedig, yn ychwanegu at y traffig ar Heol yr Orsaf a achosir gan y groesfan reilffordd a'r ceir sy'n parcio yno rhwng cyffyrdd Heol y Drindod a Heol Copperworks. | Rhagwelir na fyddai gan y blwch melyn â chroeslinellau arfaethedig lawer o effaith, os o gwbl, ar lefel / llif presennol y traffig, ac na fyddai'n cynyddu lefel y traffig. Bydd defnyddio'r blwch â chroeslinellau yn ei gwneud yn haws i gerbydau sy'n troi i'r dde ymadael â'r gyfnewidfa heb gael eu rhwystro, yn enwedig pan fydd y groesfan reilffordd wedi'i hactifadu. Bydd hyn yn lliniaru problemau traffig a achosir gan y groesfan reilffordd, ac yn helpu sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg ar amser. Bydd penderfyniad i wahardd cerbydau rhag troi i'r chwith wrth ymadael â'r gyfnewidfa arfaethedig hefyd yn cael ei ymchwilio iddo cyn y cam dylunio manwl er mwyn sicrhau nad oes ciwiau o gerbydau o flaen mynedfa'r gyfnewidfa.<br><br>Yn yr un modd, nid yw'r croesfannau arfaethedig ar hyd Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd wedi'u rheoli, sy'n golygu y bydd traffig yn cael ei flaenoriaethu ar y croesfannau hyn, ac felly ni fydd unrhyw newid i lif presennol y traffig.<br><br>Nodir y gallai'r groesfan sebra ar Heol Copperworks, yn rhinwedd bod yn groesfan sy'n blaenoriaethu cerddwyr, effeithio ar lif y traffig, ac felly bydd yn cael ei hadolygu cyn y cam dylunio manwl ar ôl cael data wedi'u diweddaru ynghylch llif traffig cerddwyr a cherbydau. | Ymchwiliad i'r gwaharddiad ar droi i'r chwith wrth ymadael â'r gyfnewidfa i'w roi ar waith cyn y cam dylunio manwl.<br><br>Addasrwydd y groesfan sebra i'w adolygu cyn y cam dylunio manwl er mwyn sicrhau'r effaith leiaf posibl ar y llif cerbydau presennol. |
| 3 | Nid yw'r gwasanaethau bysiau yn Llanelli yn ddibynadwy nac yn gyson, ac maent yn ddrud. | Er nad yw AtkinsRéalis yn ymwneud â darparu, amserlennu a gwasanaethu'r bysiau, rydym yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw hi i gael gwasanaethau bysiau dibynadwy a chyson yn Llanelli. Rydym yn deall bod trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon yn hanfodol i'r gymuned. Felly, mae'r cynigion wedi'u cynllunio gan ystyried y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau y gellir cyflwyno gwasanaethau bysiau ychwanegol i'r gyfnewidfa ac oddi yno yn seiliedig ar y galw. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 4 | Dylid ychwanegu cyfleusterau eraill, megis toiledau, arwyddion dwyieithog i atyniadau eraill (y traeth ac ati), map o'r ardal a'i threftadaeth, mannau gorffwys ychwanegol, mannau gwefru ar gyfer beiciau trydan, mannau codi a gollwng ar gyfer tacsis, biniau, man gwerthu coffi ac ati. | Y cynigion a ddangoswyd yn y digwyddiad ymgysylltu yw'r dyluniadau rhagarweiniol, sy'n darparu cynigion cychwynnol ar gyfer casglu sylwadau gan aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd leisio eu barn am y cynigion a chynnig unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt. Fel rhan o'r gwaith a wneir i ddatblygu'r cynigion ymhellach cyn y cam dylunio manwl, bydd nifer o gyfleusterau ychwanegol, megis biniau ac arwyddion cyfeirio i wella nodweddion a glendid yr ardal yn cael eu hystyried.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rhai cyfleusterau y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. Mae'r penderfyniad i gynnwys caffi, er enghraifft, yn agwedd y gall y partïon perthnasol ei hystyried maes o law ar ôl i'r cynllun gael ei roi ar waith. Mae'r cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y datblygiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r meini prawf ariannu, a bod y cynigion yn mynd i'r afael ag anghenion presennol y gymuned. Yn ogystal, ni chynigir unrhyw doiledau, ac oherwydd cyfyngiadau'r safle, nid yw'n debygol y byddant yn cael eu cynnwys ar y safle hwn. | Ymchwilio i gyfleusterau ychwanegol i'w cynnwys yn y cynigion, megis ystyried biniau ac arwyddion cyfeirio yn ystod y cam dylunio manwl. |
| 5 | Dylid adolygu'r seilwaith ffyrdd, yn enwedig ar Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd, i ddarparu ar gyfer ffordd gerbydau letach. | Er ein bod yn deall bod aelodau'r cyhoedd yn pryderu am led y gerbytffordd a pharcio ar hyd Heol y Doc Newydd a Heol yr Orsaf, dylid nodi bod yr elfennau hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn. Fodd bynnag, bydd adborth sy'n ymwneud â'r elfen hon yn cael ei rannu â swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol i'w ystyried fel rhan o gynlluniau yn y dyfodol. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 6 | Dylid ymgorffori gwelliannau i'r ardal a'r adeiladau cyfagos (e.e. swyddfa'r post a Thŷ Pharo) yn y cynigion i greu amgylchedd mwy bywiog o amgylch y gorsafoedd, gan gynnwys cael gwared ar bentyrrau sbwriel a graffiti. | Bydd pryderon ynglŷn â sbwriel a graffiti yn cael eu rhannu â swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol. Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, y gobaith hefyd yw y gwneir gwelliannau cyffredinol i daclusrwydd a chynllun y safle gan wella ymddangosiad cyffredinol yr ardal.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rhai cyfleusterau / gwelliannau y tu allan i gwmpas y gwaith a'r gofynion a bennir gan y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gyfnewidfa deithio. Er enghraifft, gwelliannau sylweddol i adeiladau cyfagos sydd dan berchnogaeth breifat. Mae'r cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y datblygiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r meini prawf ariannu, a bod y cynigion yn mynd i'r afael ag anghenion presennol y gymuned. | Pryderon ynghylch sbwriel a graffiti i'w rhannu o fewn yr awdurdod lleol. |
| 7 | Dylid ystyried gosod camerâu fel rhan o'r cynigion, yn enwedig yn yr ardaloedd parcio arfaethedig. Nid yw'r ardal yn ddiogel iawn ar hyn o bryd. | Mynegwyd pryder gan sawl unigolyn a ddaeth i'r digwyddiadau ymgysylltu ynghylch y lefelau diogelwch presennol yn yr ardal, yn enwedig ar hyd Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac AtkinsRéalis yn ymchwilio i'r mesurau y gellir eu rhoi ar waith i wella diogelwch yn y lleoliadau hyn. Ymchwilir i'r agwedd hon yn ystod cam dylunio manwl y cynllun er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw welliannau angenrheidiol yn effeithiol. | Ymchwilio i osod camera cylch cyfyng ychwanegol. |
| 8 | Dylid cymryd camau i wella'r lefelau sbwriel presennol yn yr ardal gyfagos. | Mae'r pryderon ynghylch sbwriel a graffiti i'w rhannu ag adrannau perthnasol yr awdurdod lleol. Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, y gobaith hefyd yw y bydd gwelliannau cyffredinol i daclusrwydd y cynllun a'r safle yn gwella bywiogrwydd cyffredinol yr ardal. | Y pryderon ynghylch sbwriel a graffiti i'w cydlynu o fewn yr awdurdod lleol, gyda chamau i'w cymryd i gael gwared ar sbwriel ac ati. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 9 | Dylid cymryd camau i wella'r cysylltiadau presennol rhwng Llanelli a'r ardal ehangach (gan gynnwys canol y dref, y llwybr beicio arfordirol, a siroedd cyfagos, e.e. Abertawe ac ati). | Mae sawl cynnig yn cael ei ystyried ar hyn o bryd sydd â'r nod o wella'r cysyllted o fewn Llanelli, a thu hwnt. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng ardaloedd ehangach Llanelli a chanol y dref, er mwyn hwyluso cysylltiadau haws a mwy effeithlon ar gyfer trigolion a thwristiaid ac ati.<br><br>Er mwyn sicrhau llwyddiant y mentrau hyn, cynhelir cysylltiad cyson rhwng y cynllun hwn a phrosiectau eraill yn y cyffiniau cyfagos, er mwyn sicrhau dull cydweithredol.<br><br>Ar ben hynny, bydd gosod arosfannau bysiau gwell yn galluogi darparwyr gwasanaethau i drefnu gwasanaethau newydd a gwell i'r orsaf fysiau sydd wedi'i lleoli yn ngogledd y dref, ac oddi yno. | Parhau i gysylltu ag arweinwyr cynlluniau perthnasol er mwyn sicrhau cydlyniant a gwella'r cysylltiadau rhwng ardal ehangach Llanelli a chanol y dref. |
| 10 | Awgrymiadau i gael gwared ar yr arwyddion terfyn cyflymder 20mya o'r ardal, gan fod rhai defnyddwyr ffyrdd yn cael anhawster i aros mewn gerau isel wrth yrru drwy'r safle. | Bydd y pryderon a godwyd ynghylch y terfyn cyflymder 20mya a'r anawsterau gyrru cysylltiedig yn cael eu rhannu'n ffurfiol â'r adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adborth yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw adolygiadau neu addasiadau i reoli traffig yn yr ardal. | Codi'r pryderon ynghylch y terfyn cyflymder 20mya a'r anawsterau gyrru cysylltiedig â hynny gyda'r awdurdod lleol. |
| 11 | Pryder y bydd trigolion Heol y Doc Newydd yn defnyddio'r maes parcio i barcio eu cerbydau, gan lenwi'r maes parcio. | Ar hyn o bryd, nid yw'r penderfyniad i godi tâl i barcio wedi'i gadarnhau eto. Bydd swyddogion awdurdod lleol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried hyn yn ystod y cam dylunio manwl, cyn y gwaith adeiladu, a bydd sylwadau a gesglir fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd hwn yn cael eu hystyried. | Y posibilrwydd o godi tâl i barcio i'w ystyried yn ystod y cam dylunio manwl. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 12 | Mae angen ystyried cydlynu'r bysiau a'r trenau sy'n cyrraedd ac yn ymadael. | Er nad yw AtkinsRéalis yn ymwneud â darparu, amserlennu a gwasanaethu bysiau na threnau, rydym yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw hi i gael gwasanaethau bysiau a threnau dibynadwy a chyson yn Llanelli. Rydym yn deall bod trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon yn hanfodol i'r gymuned. Felly, mae'r cynigion wedi'u cynllunio gan ystyried y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau y gellir cyflwyno gwasanaethau bysiau ychwanegol i'r gyfnewidfa ac oddi yno yn seiliedig ar y galw, a'u cydlynu â'r gwasanaethau trên sydd ar gael fel y bo'n briodol. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 13 | Pryder bod lle cyfyngedig i geir a bysiau yn y cynigion. | Mae'r cynigion a gyflwynwyd yn y digwyddiad ymgysylltu yn cynnwys darpariaethau ar gyfer 65 o fannau parcio ychwanegol o fewn y gyfnewidfa arfaethedig ei hun. Gan nad yw'r ardal, yn ei chyflwr bresennol, yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw beth ar hyn o bryd, bydd y darpariaethau hyn yn darparu mannau parcio ychwanegol i ddefnyddwyr nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i'r de o'r orsaf. Yn ogystal, mae gwelliannau wedi'u cynllunio ar gyfer maes parcio swyddfa'r post er mwyn gwella teithio a hygyrchedd yn yr ardal hon. Nod y gwelliannau hyn yw gwneud y defnydd gorau o le a hwyluso llif traffig llyfnach, gan ei gwneud yn haws i yrwyr lywio'r ardal a pharcio eu cerbydau. Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi, wrth i'r cynllun fynd rhagddo drwy'r broses ddylunio fanwl, y bydd y dyluniad yn cael ei fireinio a'i resymoli, gan gynnwys cadarnhau nifer y mannau parcio arfaethedig.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond un bws sy'n gwasanaethu Heol yr Orsaf / Heol y Doc Newydd. Fodd bynnag, mae'r cynigion wedi'u cynllunio i gynnwys dau safle bws er mwyn darparu ar gyfer anghenion posibl yr ardal yn y dyfodol a chaniatáu i ragor o wasanaethau bysiau gael eu hychwanegu, fel y bo angen. Trwy gynllunio ar gyfer twf posibl o ran opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r cynllun yn sicrhau y gall y seilwaith addasu i'r galw cynyddol a darparu cysylltedd gwell i drigolion a thwristiaid.<br><br>Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn darparu ar gyfer teithiau cerbydau yn effeithiol, cynhaliwyd dadansoddiad o'r llwybr ar gyfer troi a llywio cerbydau. Mae'r dadansoddiad hwn yn archwilio sut y bydd gwahanol fathau o gerbydau, gan gynnwys bysiau a cheir, yn llywio ardal y gyfnewidfa, gan nodi unrhyw broblemau posibl o ran sut y byddant yn teithio o gwmpas. Felly, gallwn sicrhau bod dyluniad y gerbytffordd yn caniatáu digon o le ar gyfer pob math o gerbydau y disgwylir iddynt ddefnyddio'r cyfleuster. Bydd y broses hon yn cael ei mireinio wrth i'r dyluniad ddatblygu, gan sicrhau bod y dyluniad terfynol yn caniatáu i gerbydau deithio mewn modd effeithlon a diogel. | Sicrhau bod dadansoddiad o'r llwybr ar gyfer troi a llywio cerbydau yn cael ei gynnal drwy gydol y broses o ddatblygu'r dyluniad er mwyn sicrhau bod cerbydau'n gallu teithio'n effeithlon ac yn ddiogel. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 14 | Pryder y bydd y gwaith adeiladu yn tarfu'n sylweddol ar yr ardal gyfagos. | Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu'n rheolaidd â'r ardal gyfagos, ac ar y platfformau cyfryngau cymdeithasol perthnasol, ynghylch yr amserlen adeiladu, y cynnydd a wneir, ac unrhyw darfu disgwyliedig. Bydd hyn yn sicrhau bod y trigolion a'r busnesau'n cael eu hysbysu'n briodol ac yn gallu cynllunio yn unol â hynny.<br><br>Gwneir ymdrechion hefyd i sicrhau bod unrhyw darfiad yn cael ei gyfyngu i'r lefelau lleiaf posibl. Mae hyn yn cynnwys amserlennu gweithgareddau adeiladu yn ystod oriau tawel i leihau'r effaith ar drefn ddyddiol a llif y traffig.<br><br>Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd y mesurau rheoli traffig priodol yn cael eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd cau unrhyw ffyrdd yn digwydd cyn anamled â phosibl, a dim ond lle bo angen. Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i gyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith heb fod ar y ffordd bresennol a heb orfod rheoli'r traffig. Pan fydd angen cau ffordd, dim ond un lôn a fydd yn cael ei chau ar unrhyw adeg fel arfer. Os bernir bod angen cau ffordd yn gyfan gwbl i wneud y gwaith, rhoddir digon o rybudd ymlaen llaw a threfnir bod y gwaith yn cael ei wneud y tu allan i oriau brig er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl. | Rhoi ystyriaeth ofalus i ymgymryd â'r gwaith fesul cam er mwyn helpu i darfu cyn lleied â phosibl. Ymgynghori â thrigolion ynghylch unrhyw gynigion i gyfyngu ar barcio yn ystod y cam adeiladu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw gynigion. |
| 15 | Pryder y bydd y seilwaith yn mynd yn wastraff os nad oes cysylltiadau ffurfiol a diogel rhwng canol y dref a'r orsaf. | Fel y soniwyd yn yr ymateb i'r sylwadau yn Rhif 10, mae nifer o fentrau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd sydd â'r nod o wella'r cysylltedd yn Llanelli. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng ardaloedd ehangach Llanelli a chanol y dref, er mwyn hwyluso cysylltiadau haws a mwy effeithlon ar gyfer trigolion a thwristiaid ac ati.<br><br>Er mwyn sicrhau llwyddiant y mentrau hyn, cynhelir cysylltiad cyson rhwng y cynllun hwn a phrosiectau eraill yn y cyffiniau cyfagos, er mwyn sicrhau dull cydweithredol. | Parhau i gysylltu ag arweinwyr cynlluniau perthnasol er mwyn sicrhau cydlyniant a gwella'r cysylltiadau rhwng ardal ehangach Llanelli a chanol y dref. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 16 | Pryder y bydd defnyddwyr yr orsaf yn defnyddio strydoedd cyfagos i barcio os yw maes parcio'r orsaf yn llawn. | Er bod y pryder hwn wedi'i nodi, yn seiliedig ar faint o gyfleusterau parcio ychwanegol a gynigir, rhagwelir mai prin iawn o effaith y bydd y cynllun arfaethedig yn ei chael ar gerbydau'n parcio yn yr ardaloedd cyfagos. | Monitro'r sefyllfa o ran parcio ar ôl y gwaith adeiladu er mwyn asesu unrhyw effeithiau dadleoli posibl a achosir gan weithrediad y cynllun. |
| 17 | Pryder ynghylch codi tâl i barcio yn y maes parcio. | Ar hyn o bryd, nid yw'r penderfyniad i godi tâl i barcio wedi'i gadarnhau eto. Bydd swyddogion awdurdod lleol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried hyn yn ystod y cam dylunio manwl, cyn y gwaith adeiladu, a bydd sylwadau a gesglir fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd hwn yn cael eu hystyried. | Y posibilrwydd o godi tâl i barcio i'w ystyried yn ystod y cam dylunio manwl. |
| 18 | Pryder nad oes digon o le i fysiau fynd i mewn ac allan o'r safle bws isaf pan fydd bws arall wedi'i barcio yn y safle bws uchaf. | Gweler yr ymateb i Rif 13. | Adolygu a diweddaru'r dadansoddiad o'r llwybr ar gyfer troi a llywio cerbydau wrth fynd o'r cam dylunio i'r cam adeiladu. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- | --- | --- |
| 19 | Dylid caniatáu i gerbydau, yn enwedig bysiau, droi i'r chwith o'r maes parcio yn y gyfnewidfa i Heol yr Orsaf. | Er y deellir bod rhywfaint o awydd i ganiatáu i gerbydau droi i'r chwith wrth ymadael â'r gyfnewidfa arfaethedig, ar hyn o bryd cynigir gwaharddiad ar droi i'r chwith. Cynhaliwyd dadansoddiadau o'r llwybr ar gyfer troi a llywio bysiau a cherbydau mwy o faint. Mae'r dadansoddiadau hyn yn dangos na fyddai digon o le ar gyfer cerbydau o'r fath heb newidiadau sylweddol i'r cynllun arfaethedig (gan arwain at lai o fannau parcio). Hefyd, credir y gallai caniatáu i gerbydau droi i'r chwith achosi tagfeydd y tu mewn i'r cyfleuster pan fydd clwydi'r groesfan reilffordd ar gau. Mae'n bosibl hefyd y bydd cerbydau'n ceisio llwybr byr trwy'r safle i osgoi traffig. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| 20 | Pryder bod y groesfan sebra arfaethedig yn rhy agos at gyffordd Heol Copperworks a Heol yr Orsaf. | Mae'r lleoliad arfaethedig ar gyfer y groesfan sebra wedi'i ddewis yn ofalus er mwyn sicrhau'r lleiniau gweledeedd gorau posibl ar gyfer cerddwyr. Mae hyn yn golygu y bydd gan gerddwyr linell welediad glir wrth groesi'r ffordd, gan wella diogelwch i bob defnyddiwr. Mae'r dyluniad yn ystyried amryw o ffactorau, megis cynllun y ffordd, presenoldeb unrhyw rwystrau, ac ymddygiad arferol cerddwyr a gyrwyr yn yr ardal.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y lefelau traffig presennol a'r cynigion o ran croesi yn y lleoliad hwn yn dal i gael eu hadolygu. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i benderfynu a ydyw croesfan sebra yn benderfyniad y gellid ei gyfiawnhau. Bydd adolygiad manwl yn cael ei gynnal yn y cam dylunio nesaf, ac os yw'n briodol, bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. | Lleoliad a math y groesfan yn Heol Copperworks i'w hystyried ymhellach yn ystod y cam dylunio manwl. |
| 21 | Dylid cynyddu nifer y mannau parcio a neilltuir ar gyfer pobl anabl. | Bydd nifer y mannau parcio arfaethedig ar gyfer pobl anabl yn cael ei adolygu yn ystod y cam cynllunio manwl, yn unol â'r canllawiau a'r polisi dylunio diweddaraf. | Adolygu nifer y mannau parcio a fydd yn cael eu neilltuo i bobl anabl yn ystod y cam dylunio manwl. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 22 | Dylid gweithredu gwasanaeth ar gyfer llogi sgwteri a beiciau trydan, yn debyg i'r hyn sydd ar gael yn Abertawe a Chaerdydd. | Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wasanaeth llogi beiciau trydan na sgwteri wedi'u hystyried ar gyfer y safle hwn. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad o ran gweithredu gwasanaeth o'r fath yn cael ei adolygu gan y swyddog perthnasol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cam dylunio manwl. | Ystyried y potensial ar gyfer gweithredu gwasanaeth llogi sgwteri / beiciau trydan yn ystod y cam dylunio manwl. |
| 28 | Dylid darparu lleoedd pwrpasol ar gyfer tacsis i gasglu a gollwng cwsmeriaid. | Er y deallwn fod problemau ar hyn o bryd o ran y cysylltiadau rhwng yr orsaf drenau a chanol y dref, nodir bod y lleoedd tacsis sy'n bodoli eisoes i'r gogledd o'r orsaf yn fwy addas i gysylltu'r orsaf drenau a chyrchfannau eraill. Felly, nid oes unrhyw leoedd tacsi ychwanegol yn cael eu cynnig i'r de o'r orsaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod y cam dylunio manwl, cyn y gwaith adeiladu. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| 29 | Nid yw'r gwasanaethau tacsis yn ddigonol, yn enwedig ar ôl 6pm. | Cododd nifer o'r rheini a ddaeth i'r digwyddiadau ymgysylltu bryderon ynghylch pa mor anaml ac annibynadwy oedd y gwasanaethau tacsi o orsaf Llanelli, yn enwedig yn ystod oriau'r nos. Er nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli nac yn rheoleiddio gwasanaethau tacsi yn uniongyrchol, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i sicrhau bod pob dull teithio sy'n cysylltu â'r gyfnewidfa yn hygyrch ac yn ddibynadwy i deithwyr sy'n defnyddio'r gyfnewidfa.<br>Am ragor o wybodaeth ynghylch mannau casglu a gollwng pwrpasol ar gyfer tacsis, gweler yr ymateb i Rif 28. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

| Rhif | Sylwadau | Ymateb | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 30 | Pryderon bod llawer iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr orsaf. | Rydym yn cydnabod y pryderon a leisiwyd ynghylch glendid a'r argraff gyntaf o Orsaf Reilffordd Llanelli, yn ogystal ag effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol megis sbwriel, graffiti, ac ysmygu neu fepio ar blatfformau a threnau.<br><br>Nod y gyfnewidfa arfaethedig yw gwella'r amgylchedd a'r profiad cyffredinol i bob defnyddiwr yn sylweddol. Un o brif amcanion y cynllun yw creu canolfan drafnidiaeth fodern, groesawgar, sydd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, sy'n annog ymddygiad cadarnhaol ac yn atal gweithgarwch gwrthgymdeithasol. Fel y trafodwyd yn Rhif 7, bydd ymchwiliadau i benderfynu a ddylid gosod camerâu cylch cyfyng ychwanegol hefyd yn cael eu cynnal. | Ymchwilio i'r potensial i osod rhagor o gamerâu cylch cyfyng i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. |

# 5. Crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd

Dychwelwyd 98 o holiaduron. O'r rhain cwblhawyd 59 ar-lein, a dychwelwyd 39 o gopïau caled i AtkinsRéalis yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Dylid nodi bod cyfyngiadau ar y feddalwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg yn golygu nad oedd modd casglu nifer yr ymgyngoreion a welodd y cynnwys ar-lein ond na chwblhaodd yr holiadur.

## 5.1 Ardal

Wrth ddadansoddi'r codau post, canfuwyd bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi darparu'r pum digid cyntaf, a oedd yn rhoi syniad o'u lleoliad cyffredinol. Dosbarthwyd llythyrau i hysbysu trigolion / eiddo masnachol ger safle cyfnewidfa Llanelli am gynigion y cynllun. Cyfeiriodd y llythyr yr unigolion hynny at wefan Cyfnewidfa Deithio Llanelli (www.llanelli-interchange.co.uk/cartref), lle rhoddwyd gwybod iddynt am y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd i'w cynnal ar 17 a 27 Mawrth 2025, gan eu gwahodd i gwblhau holiadur i rannu eu meddyliau neu bryderon â Chyngor Sir Caerfyrddin ac AtkinsRéalis.

O'r 98 o ymatebwyr i'r holiadur, rhoddodd 51 (52%) ohonynt godau post yn dechrau ag SA15, neu godau post penodol, o fewn yr ardal lle dosbarthwyd llythyrau, gan nodi eu bod yn byw'n agos at gynigion y cynllun. Y codau post SA15 1 ac SA15 2 oedd y prif godau post y tu mewn i'r ardal lle dosbarthwyd y llythyrau (Ffigur 2). Darparwyd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn gan ymatebwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Nododd 12 (10%) o'r ymatebwyr mai SA15 1 oedd eu cod post, tra bod 19 (16%) o'r ymatebwyr wedi nodi mai SA15 2 oedd eu cod post.

Mae'r dull uchod yn dangos bod trigolion yn y cyffiniau cyfagos wedi cael digon o wybodaeth am y cynigion a'u bod wedi cael cyfle i leisio eu barn, a thrwy hynny gyfrannu at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o safbwyntiau lleol.

O ddadansoddi'r data, canfuwyd mai dim ond 26% o ryw 430 eiddo a gafodd y llythyr ynghylch y digwyddiadau ymgysylltu a gwblhaodd yr holiadur. O ystyried y nifer uchel o godau post SA15 1 ac SA15 2 a ddarparwyd, o'i gymharu â chodau post SA15 eraill (e.e. SA15 3, SA15 4 ac ati), ac o ystyried bod gan bob eiddo a gafodd lythyrau god post SA15 1 neu SA15 2, ystyrir, at ddibenion dadansoddi data a'r adroddiad hwn, fod pob ymatebydd a ddarparodd god post SA15 1 neu SA15 2 yn 'byw'n lleol' o ran y cynllun.


Mae'r gwahanol godau post a roddwyd yn yr ymatebion wedi'u manylu yn Nhabl 5.1.

**Tabl 5.1 – ardal leol yr ymatebwyr**

| Cod post | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| SA15 | 5 | 4% |
| SA15 0 | 1 | 1% |
| SA15 1 | 12 | 10% |
| SA15 2 | 19 | 16% |
| SA15 3 | 7 | 6% |
| SA15 4 | 5 | 4% |
| SA15 5 | 2 | 2% |
| SA16 0 | 6 | 5% |
| SA17 4 | 2 | 2% |
| Arall (e.e. SA10, SA31 ac ati) | 21 | 18% |
| Dim ymateb | 18 | 15% |

## 5.2 Barn am y cynllun


Mae dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 10 o'r holiadur a ddosbarthwyd yn y digwyddiadau ac y rhoddwyd dolen iddo ar y wefan, yn dangos bod gan y rheini a ymatebodd farn gadarnhaol am y cynllun ar y cyfan (gweler Ffigur 3). Mynegodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynigion. Roedd cyfanswm o 81 (83%) o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion. O'i gymharu, dim ond chwech (6%) o'r ymatebwyr oedd naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynigion.




**Ffigur 3 – Ymateb cyffredinol i'r ymarfer ymgysylltu**

### 5.2.1 Ymatebwyr sy'n byw'n lleol (SA15 1 ac SA15 2)

Mae Ffigur 4 isod yn dangos barn y 31 o ymatebwyr sy'n byw'n lleol i'r cynllun. Roedd cyfran sylweddol, h.y. 26 (84%), yn cytuno â chynigion y cynllun, a dim ond tri (10%) yn erbyn.





**Ffigur 4 – Barn ymatebwyr lleol am y cynllun**

### 5.2.2 Ymatebwyr nad ydynt yn byw'n lleol (y tu allan i SA15 1 ac SA15 2)

Mae Ffigur 5 isod yn dangos barn y 65 o ymatebwyr sy'n byw y tu allan i gyffiniau uniongyrchol cynigion y cynllun. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, roedd cyfran sylweddol, h.y. 55 (85%), yn cytuno â'r cynigion, a dim ond tri (5%) oedd yn erbyn.

Mae'r data hyn yn awgrymu, ynghyd â'r hyn sydd yn Adran 3.2.1, fod barn yr ymatebwyr lleol am y cynllun yn debyg i farn yr ymatebwyr nad ydynt yn lleol.




**Ffigur 5 – Barn ymatebwyr nad ydynt yn lleol ar y cynllun**

### 5.2.3 Dosbarthiad oedran

Mae Ffigur 6 isod yn rhoi dadansoddiad o ganran yr ymatebwyr ym mhob categori oedran a'u barn am gynigion y cynllun. Fel y nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae'r barn gyffredinol am gynigion y cynllun yn gadarnhaol ar y cyfan, sydd at ei gilydd yn wir ar draws y dosbarthiad oedran llawn.

O'r categori oedran rhwng 35 a 44 a hŷn, roedd nifer o ymatebwyr naill ai ddim yn siŵr neu yn erbyn y cynigion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond cyfanswm o 15 (15%) o ymatebwyr oedd hyn mewn gwirionedd.





**Ffigur 6 – Oedran a barn am y cynllun**

### 5.2.4 Dosbarthiad rhywedd

Mae Ffigur 7 drosodd yn dangos nad yw rhywedd yr ymatebydd yn cael fawr o ddylanwad ar ei safbwynt o blaid neu yn erbyn cynigion y cynllun. Ymatebodd 33 o fenywod a 54 o wrywod i'r holiadur. Wrth gymharu'r canlyniadau rhwng y ddau rywedd hyn, dim ond gwahaniaeth o 5% sydd rhwng y rheini a gytunodd â chynigion y cynllun. Unwaith eto, wrth edrych ar ganlyniadau'r rheini nad ydynt yn siŵr am amcanion y cynigion, dim ond gwahaniaeth o 5% sydd rhwng y ddau rywedd.

Wrth edrych ar ganlyniadau'r ymatebwyr sydd yn erbyn cynigion y cynllun, nododd pob un ohonynt eu bod yn wrywod. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond chwech o'r cyfanswm o 98 o ymatebwyr (6%) y mae hyn yn cyfateb iddo.

Roedd yn well gan dri ymatebydd beidio â datgelu eu rhywedd. O'r rhain, roedd dau o blaid y cynigion, tra bod un ddim yn siŵr.





**Ffigur 7 – Barn am y cynllun yn ôl rhywedd**

Ar sail yr uchod, gellir awgrymu nad yw rhywedd yn cael effaith ar farn ymateb o blaid neu yn erbyn cynigion y cynllun.

## 5.2.5 Prif ddull teithio

Mae Ffigur 8 isod yn dangos y gydberthynas rhwng prif ddulliau teithio'r ymatebwyr a'u barn am gynigion y cynllun. O'r 97 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd 72, sef nifer sylweddol, mai car yw eu prif ddull teithio. Ymhlith y defnyddwyr ceir hyn, roedd cyfran sylweddol, h.y. 62 (86%), o blaid y cynllun, tra mai dim ond dau (3%) oedd yn ei erbyn. Cyfanswm o 97 o ymatebion a gafwyd gan fod un ymatebydd wedi dewis peidio â chyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.




**Ffigur 8 – Prif ddull teithio a barn am y cynllun**


Mae'n bwysig nodi bod 39 o holiaduron copi caled a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys ymatebion lle dewiswyd sawl dull teithio ar gyfer y cwestiwn hwn. Patrwm a welwyd dro ar ôl tro oedd bod 'car' ymhlith yr hyn a ddewiswyd yn y mwyafrif o'r achosion hyn. Er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder wrth

ddadansoddi'r data, mae 'car' wedi'i gofnodi fel y prif ddull teithio, pan ymddangosodd ymhlith dewisiadau ymatebydd, yn ystod y broses o fewnbynnu'r ymatebion copi caled i'r system ar-lein.

## 5.2.6 Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Mae Ffigur 9 isod yn dangos y gydberthynas rhwng defnydd yr ymatebwyr o drafnidiaeth gyhoeddus a'u dewisiadau ar y cynllun. O'r 95 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, mae tri (4%) yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus bob dydd, mae 16 (%) yn ei defnyddio'n wythnosol, mae 60 (63%) yn ei defnyddio'n achlysurol, ac ymatebodd 16 (16%) nad ydynt byth yn ei defnyddio.

Roedd y tri a ymatebodd eu bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus bob dydd 100% o blaid y cynllun. Mewn cyferbyniad, allan o'r 16 a ddywedodd eu bod byth yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, roedd 10 (62.5%) o blaid y cynllun, pedwar (25%) ddim yn siŵr, a dau (12.5%) yn erbyn. Ar sail y graff, gellir casglu, wrth i lefel y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus leihau, fod y diffyg sicrwydd ynghylch cynigion y cynllun yn cynyddu fymryn.




**Ffigur 9 – Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a barn am y cynllun**


## 5.2.7 Diddordeb yn y cynllun

Mae Ffigur 10 drosodd yn dangos y gydberthynas rhwng diddordeb presennol yr ymatebwyr yn ardal y cynllun, a'u barn am gynigion y cynllun. O'r 91 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, mae gan 74 (77%) gartref neu fusnes yn Llanelli, mae 17 (19%) yn ymweld â Llanelli neu'n mynd trwyddi'n rheolaidd, a dewisodd y pedwar (4%) sy'n weddill reswm arall dros eu diddordeb yn y cynllun. Cyfanswm o 91 o ymatebion a gafwyd gan fod saith ymatebydd wedi dewis peidio â chyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

O edrych ar Ffigur 10, gellir casglu, waeth beth fo'u diddordeb yn y cynllun, fod yr ymatebwyr o blaid cynigion y cynllun, gydag 82% neu ragor o blaid y cynllun ym mhob ateb.

O'r pedwar a ddewisodd 'arall' fel eu hymateb, rhoddwyd y rhesymau gwahanol canlynol:

- Aelod o Gyngor Gwledig Llanelli
- Dawnsio yn Dance Kingdom
- Yr ymatebydd yn byw ym Mhwll ac yn defnyddio gorsaf Porth Tywyn yn hytrach na Llanelli oherwydd y lefel uchel o draffig yn Llanelli.





**Ffigur 10 – Diddordeb yn y cynllun a'r farn amdani**

## 5.3 Heriau o ran trafnidiaeth gyhoeddus

Mae Ffigur 11 isod yn dangos yr heriau y mae'r ymatebwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran trafnidiaeth gyhoeddus. O'r 92 o ymatebwyr a roddodd atebion i'r cwestiwn hwn, amlder a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus oedd yr atebion a ddewiswyd amlaf. Dewiswyd y ddau ateb hyn gan oddeutu 40% o'r ymatebwyr.

Roedd oddeutu 9% o'r ymatebwyr yn credu bod diogelwch a glendid yn broblem o ran trafnidiaeth gyhoeddus.





**Ffigur 11 – Yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus**

Mae'n bwysig nodi bod 39 o holiaduron copi caled a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys ymatebion lle dewiswyd sawl her ar gyfer y cwestiwn hwn. Patrwm a welwyd dro ar ôl tro oedd bod 'amlder' a 'chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus' ymhlith yr opsiynau a ddewiswyd yn y mwyafrif o'r achosion hyn. Er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder wrth ddadansoddi'r data, cofnodwyd naill ai 'amlder' neu 'gysylltedd trafnidiaeth

gyhoeddus' fel y prif heriau pan gawsant eu dewis gan ymatebydd yn ystod y broses o fewnbynnu'r ymatebion copi caled i'r system ar-lein.

## 5.4 O fudd i Lanelli


Mae Ffigur 12 isod yn dangos canran yr ymatebwyr a gredai y byddai cynigion y cynllun o fudd i Lanelli. O'r 95 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd cyfran sylweddol, h.y. 84 (88%), yn credu y byddai'r cynigion o fudd i Lanelli, tra mai dim ond 11 (12%) oedd yn credu na fyddent o fudd.




**Ffigur 12 – Buddion cynigion y cynllun i Lanelli**

## 5.5 Annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Mae Ffigur 13 isod yn dangos canran yr ymatebwyr a gredai y byddai'r cynigion yn cael effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal. O'r 93 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd cyfran sylweddol, h.y. 77 (83%), yn credu y byddai'r cynigion yn cael effaith, tra mai dim ond 16 (17%) a oedd yn credu na fyddent yn cael effaith.





**Ffigur 13 – Effaith cynigion y cynllun ar annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**

## 5.6 Y cyfleusterau arfaethedig a ffefrir

Mae Ffigur 14 isod yn dangos yr hyn a ffefrid gan yr ymatebwyr o ran y cyfleusterau a gynigiwyd fel rhan o'r cynllun. O'r chwe opsiwn a restrir, gellir gweld mai 'mannau parcio ar gyfer cerbydau' yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd, gyda 38 (40%) o'r ymatebwyr yn dewis yr opsiwn hwn. Roedd y cyfleuster bysiau pwrpasol a'r cyfleusterau teithio llesol i'r gyfnewidfa arfaethedig ac oddi yno yn cael eu ffafrio i raddau tebyg, gyda dim ond 2% o wahaniaeth rhyngddynt.

Er bod y mannau gorffwys, rheseli / storfeydd beiciau, a chyfleusterau gwefru cerbydau trydan yn llai poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr, roedd rhywfaint o ddiddordeb mewn gweld y rhain yn cael eu cynnwys yn y gyfnewidfa, gyda chyfanswm o 23 (23%) o'r 98 o ymatebwyr yn dewis y rhain.

Dewisodd 14 o ymatebwyr 'Ddim yn berthnasol' ar gyfer y cwestiwn hwn. Wrth ddadansoddi'r cwestiwn 'Sylwadau pellach' (cwestiwn 13), soniodd un ymatebydd am ganiatáu i fysiau a cherbydau eraill droi i'r chwith o'r gyfnewidfa i Heol yr Orsaf, a rhoddodd yr ymatebydd arall sylwadau pellach ynghylch peidio â gweithredu unrhyw gyfleusterau neu bethau ychwanegol yn yr ardal gan y byddai'r holl gyfleusterau'n cael eu difrodi neu'n cael eu dwyn. Fodd bynnag, roedd y ddau ymatebydd hyn o blaid cynigion y cynllun.




**Ffigur 14 – Y cyfleusterau arfaethedig a ffefrir**

Mae'n bwysig nodi bod 39 o holiaduron copi caled a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys ymatebion lle dewiswyd sawl cyfleuster arfaethedig a ffefrir ar gyfer y cwestiwn hwn. Patrwm a welwyd dro ar ôl tro oedd bod 'mannau parcio ar gyfer cerbydau' ymhlith yr opsiynau a ddewiswyd yn y mwyafrif o'r achosion hyn. Er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder wrth ddadansoddi'r data, cofnodwyd 'mannau parcio ar gyfer cerbydau' fel y prif her pan gafodd ei ddewis ymhlith dewisiadau'r ymatebydd yn ystod y broses o fewnbynnu'r ymatebion copi caled i'r system ar-lein.

# 6. Argymhellion

Roedd yr ymateb i'r cynigion gan aelodau'r cyhoedd yn gadarnhaol dros ben, gydag 81 (83%) o'r ymatebwyr o'u plaid. O'r 81 o ymatebwyr hyn, mae 26 (27%) yn byw yng nghyffiniau agos y cynllun (codau post SA15 1 ac SA15 2). O'r chwe (6%) ymatebydd a oedd yn erbyn cynigion y cynllun, dim ond dau (2%) a roddodd sylwadau pellach. Nid oedd y sylwadau hyn yn ymwneud yn llwyr â chynigion y cynllun eu hunain ac roeddent yn seiliedig ar y defnydd presennol o ddulliau teithio llesol a/neu drafnidiaeth gyhoeddus, a'r cysylltiadau sy'n bodoli eisoes rhwng canol tref Llanelli a'r ardal ehangach.

Yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, a'r dadansoddiad o'r ymatebion a drafodwyd uchod yn dilyn hyn, argymhellir bod cynigion y cynllun a ffefrir yn cael eu symud ymlaen i'r camau cynllunio, dylunio manwl a gweithredu, a bydd y dyluniad yn cael ei fireinio a'i resymoli, gan gynnwys cadarnhau nifer y mannau parcio arfaethedig. Dylai'r cynnydd hwn ystyried y pwyntiau gweithredu a amlinellir isod er mwyn sicrhau bod pryderon ac awgrymiadau'r gymuned yn cael sylw digonol.

## 6.1 Awgrymu camau gweithredu a chamau nesaf yn dilyn canlyniad y digwyddiadau ymgysylltu

Ar sail canfyddiadau'r digwyddiadau ymgysylltu hyn, awgrymir bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried y camau nesaf fel a ganlyn:

- Ymchwiliad i'r gwaharddiad ar droi i'r chwith wrth ymadael â'r gyfnewidfa i'w roi ar waith cyn y cam dylunio manwl.
- Addasrwydd y groesfan sebra i'w adolygu cyn y cam dylunio manwl er mwyn sicrhau'r effaith leiaf posibl ar y llif cerbydau presennol.
- Ymchwilio i gyfleusterau ychwanegol i'w cynnwys yn y cynigion, megis ystyried biniau ac arwyddion cyfeirio yn ystod y cam dylunio manwl.
- Ymchwilio i'r potensial i osod rhagor o gamerâu cylch cyfyng i annog pobl i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol.
- Y pryderon ynghylch sbwriel a graffiti i'w cydlynu o fewn yr awdurdod lleol, gyda chamau i'w cymryd i gael gwared ar sbwriel ac ati.
- Parhau i gysylltu ag arweinwyr cynlluniau perthnasol er mwyn sicrhau cydlyniant a gwella'r cysylltiadau rhwng ardal ehangach Llanelli a chanol y dref.
- Codi'r pryderon ynghylch y terfyn cyflymder 20mya a'r anawsterau gyrru cysylltiedig â hynny gyda'r awdurdod lleol yn ffurfiol.
- Adolygu a fydd y mannau parcio arfaethedig am ddim ar sail y cyntaf i'r felin neu a fydd angen talu.
- Ymgymryd â'r dadansoddiad o'r llwybr ar gyfer troi a llywio cerbydau drwy gydol y broses o ddatblygu'r dyluniad er mwyn sicrhau y gall cerbydau symud o gwmpas yn effeithlon ac yn ddiogel.
- Rhoi ystyriaeth ofalus i ymgymryd â'r gwaith fesul cam er mwyn helpu i darfu cyn lleied â phosibl. Ymgynghori â thrigolion ynghylch unrhyw gynigion i gyfyngu ar barcio yn ystod y cam adeiladu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw gynigion.
- Lleoliad a math y groesfan yn Heol Copperworks i'w hystyried ymhellach yn ystod y cam dylunio manwl.
- Adolygu nifer y mannau parcio a fydd yn cael eu neilltuo i bobl anabl yn ystod y cam dylunio manwl.
- Ystyried gweithredu gwasanaeth llogi sgwteri / beiciau trydan yn ystod y cam dylunio manwl.

Bydd ymarfer ymgysylltu pellach â'r cyhoedd yn cael ei ystyried os yw'n briodol gwneud hynny, a bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol am y prif gerrig milltir, a diweddariadau ar y prosiect, ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

## 6.2 Diwygiadau i’r cynigion yn dilyn canlyniad y digwyddiadau ymgysylltu a chyswllt ychwanegol â rhanddeiliaid

Ers cyflwyno’r cynigion dylunio yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Mawrth 2025, mae nifer o welliannau hollbwysig wedi’u gwneud. Mae’r newidiadau hyn yn ganlyniad dau brif fewnbwn: adborth a ddaeth i law yn ystod y broses ymgysylltu â’r cyhoedd, ac argymhellion yn deillio o gam cyntaf yr archwiliad diogelwch ar y ffordd a gynhaliwyd ym mis Mai 2025.

Roedd yr ymatebion o’r ymarfer ymgysylltu wedi cynnig mewnwelediad gwerthfawr i flaenoriaethau’r cyhoedd, pryderon ynghylch hygyrchedd, a dewisiadau defnyddwyr, gan ysgogi sawl addasiad i fireinio’r cynigion gwreiddiol. Ochr yn ochr â hynny, nododd yr archwiliad ystyriaethau penodol ynghylch diogelwch yr oedd angen talu sylw iddynt er mwyn sicrhau bod y cynllun yn bodloni safonau sefydledig ac yn sicrhau diogelwch pawb ar y ffordd.

Gyda’i gilydd, mae’r mewnbynnau hyn wedi llywio cyfres o addasiadau wedi’u targedu i’r dyluniad gyda’r nod o wella ymarferoldeb, diogelwch a phrofiad y defnyddiwr ar draws y safle. Gellir dod o hyd i’r cynigion diweddaraf yn Atodiad E, sy’n gywir ar 5 Awst 2025, wrth baratoi ar gyfer y cais cynllunio.

### 6.2.1 Addasiadau i’r ddarpariaeth barcio

Yn dilyn y digwyddiad ymgysylltu, mae’r cynigion dylunio wedi cael eu diwygio. Un o’r prif newidiadau oedd gostyngiad bach yn nifer y mannau parcio arfaethedig a fydd ar gael ar draws y gyfnewidfa a maes parcio swyddfa’r post, o gyfanswm o 67 man parcio i gychwyn, i 60 man parcio. Gwnaed yr addasiad hwn am gyfuniad o resymau ymarferol ac amgylcheddol.

Yn gyntaf, mae’r gostyngiad yn darparu digon o le i gerbydau symud er mwyn cael mynediad diogel ac effeithlon i’r lleoedd parcio. Roedd hwn yn gam gweithredu argymelledig a nodwyd yn adroddiad cryno’r ymgysylltu. Yn ail, mae’r newid yn cefnogi ymrwymiad y cynllun i gyflawni enillion net o ran bioamrywiaeth. Yn benodol, roedd cael gwared ar 10 lle parcio gyfochrog ar ymyl gogledd-orllewinol y safle yn hanfodol er mwyn caniatáu ar gyfer nodweddion ecolegol gwell yn yr ardal honno.

Yn ogystal â’r ystyriaethau hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad â Network Rail i sicrhau bod y cynigion diwygiedig yn cyd-fynd â’r safonau a’r gofynion a nodir yn eu dogfennau canllaw. Mae’r dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod y dyluniad yn parhau i gydymffurfio â pholisïau seilwaith perthnasol ac yn cefnogi proses integreiddio ddiogel ag asedau rheilffordd cyfagos.

I leddfu effaith y gostyngiad hwn, mae’r tîm dylunio wedi ailwerthuso cynllun gweddill y safle i wneud y gorau o’r capasiti parcio lle bo modd. Fel rhan o’r ymdrech hon, mae pedair lle parcio pwrpasol ar gyfer beiciau modur wedi’u cynnwys i amrywio’r opsiynau parcio a darparu ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr yn well.

Yn ogystal, mae’r mannau parcio i bobl anabl a gyflwynwyd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu wedi’u mireinio i gynnwys mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Mae’r mannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer pobl anabl hyn o’r un maint â’r maint a amlinellir yn y dogfennau canllaw gofynnol.

### 6.2.2 Diwygiadau i ddyluniad y groesfan i gerddwyr

Fel yr amlinellwyd yn Adran 6.1 o’r adroddiad hwn, un o’r camau dilynol hollbwysig oedd asesu pa mor briodol yw’r groesfan sebra arfaethedig ar hyd Heol Copperworks. Yn ystod cam datblygu’r dyluniad dilynol, dadansoddwyd data cyfrif traffig wedi’u diweddaru i benderfynu a oedd angen croesfan a reolir yn y lleoliad hwn. Dangosodd y canfyddiadau nad oedd lefel y traffig a gweithgarwch cerddwyr yn cyfiawnhau croesfan sebra ffurfiol.

O ganlyniad, mae’r cynnig gwreiddiol wedi’i ddiwygio. Yn lle croesfan sebra a reolir, mae’r dyluniad bellach yn cynnwys croesfan uwch i gerddwyr heb ei rheoli. Mae’r dewis amgen hwn yn sicrhau bod cerddwyr yn dal i gael eu blaenoriaethu wrth alinio’n fwy priodol â’r amodau traffig presennol.

Yr hyn sy’n bwysig yw bod y groesfan newydd o fewn y gyffordd yn yr un lleoliad â’r groesfan sebra a gynigiwyd yn flaenorol. Penderfynwyd cadw’r lleoliad hwn oherwydd ei fod yn cydymffurfio â’r safonau gwelededd a argymhellir, gan sicrhau bod gan yrwyr a cherddwyr linellau gwelediad clir a’u bod yn gallu rhyngweithio’n ddiogel wrth y man croesi.

### 6.2.3 Newid lleoliad y cysgodfannau beiciau

Yn y lluniadau gwreiddiol ar gyfer y digwyddiad ymgysylltu (Atodiad A), roedd y cysgodfannau beiciau arfaethedig o fewn ardal maes parcio swyddfa’r post. Fodd bynnag, wrth i’r broses ddylunio fynd rhagddi a chynnal dadansoddiad pellach o’r safle, daeth yn amlwg y byddai newid lleoliad y cysgodfannau yn cynnig mwy o fuddion o ran defnydd.

Er mwyn gwella hygyrchedd ac annog teithio llesol, mae’r cysgodfannau beiciau bellach wedi’u symud i leoliad mwy canolog o fewn y gyfnewidfa ei hun. Mae’r lleoliad diwygiedig hwn yn sicrhau bod y cysgodfannau mewn lleoliad mwy cyfleus i ddefnyddwyr y gyfnewidfa, gan wella cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio ac ategu’r nod cyffredinol o hyrwyddo teithio cynaliadwy.

Mae’r lleoliad newydd hefyd yn caniatáu gwell integreiddiad â llwybrau cerddwyr a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, gan ei gwneud hi’n haws i feicwyr newid rhwng beicio a dulliau eraill o deithio. Mae’r addasiad hwn yn adlewyrchu dull dylunio sy’n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan flaenoriaethu hwylustod, diogelwch a hygyrchedd.

### 6.2.4 Dimensiynau’r lleoedd parcio ar gyfer cerbydau trydan a’r lleoedd ar gyfer pobl anabl

Yn dilyn ymgysylltu â’r cyhoedd a Network Rail, mae’r lleoedd parcio arfaethedig ar gyfer cerbydau trydan a phobl anabl wedi’u diwygio a’u gwella, yn unol â PAS1899. Mae hyn yn sicrhau bod pob lle ar gyfer cerbydau trydan yn y gyfnewidfa arfaethedig yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan sicrhau hefyd bod lleoedd cerbydau trydan ar gael yn benodol ar gyfer defnyddwyr anabl.

### 6.2.5 Gwelliannau i farciau ffordd ac arwyddion

Yn ystod archwiliad diogelwch ar y ffordd cam 1, codwyd pryderon ynghylch dryswch posibl i ddefnyddwyr ffyrdd o ran pa gyfeiriad y mae’r traffig yn llifo iddo o fewn rhai ardaloedd o’r safle. Yn benodol, nodwyd y gellid

camddehongli rhai elfennau o’r cynllun fel elfennau unffordd neu ddwyffordd, gan arwain at ansicrwydd a risgiau posibl o ran diogelwch.

Er mwyn mynd i’r afael â’r mater hwn a gwella eglurder yn gyffredinol, mae’r dyluniad wedi’i ddiweddaru i gynnwys marciau ffordd ac arwyddion cyfeiriad ychwanegol ledled y safle. Mae’r gwelliannau hyn wedi’u lleoli’n strategol i lywio gyrwyr yn glir ar hyd y llwybrau bwriadedig, gan leihau amwysedd a gwella eglurder cynllun y ffordd yn gyffredinol.

Mae’r marciau a’r arwyddion diwygiedig wedi’u cynllunio’n ofalus i gyd-fynd â chanllawiau arferion gorau a safonau gwelededd, gan sicrhau eu bod yn hawdd eu deall ac yn weladwy i bob defnyddiwr. Mae’r dull rhagweithiol hwn yn caniatáu i bobl lywio’r ffordd yn fwy diogel gan gyfrannu at amgylchedd haws ei ddeall a’i ddefnyddio i gerbydau a cherddwyr.

# ATODIADAU

# Appendix A. Lluniadau ar gyfer y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd

# Appendix B. Holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd – Saesneg

# Appendix C. Holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd – Cymraeg

# Appendix D. Canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd

# Appendix E. Cynigion cynllun wedi'u diweddaru cyn y cais cynllunio

**AtkinsRéalis**
Tŷ Gorllewin Morgannwg
12 Stryd y Berllan
Abertawe
SA1 5AD

© AtkinsRéalis oni nodir yn wahanol